**EISTEDDFOD GADEIRIOL TREGARON 13/14eg MEDI 2019**

Cynhaliwyd Eisteddfod Gadeiriol Tregaron ar benwythnos yr 8fed ar 9fed o Fedi yn y Neuadd Goffa. Braf oedd gweld disgyblion Ysgol Henry Richard yn cefnogi'r adran gyfyngedig ac yn cystadlu ar y nos Wener. Croesawyd y plant, yr athrawon a'r beirniaid gan y Cadeirydd sef Cyril Evans. Llongyfarchiadau mawr i bob un disgybl a ymddangosodd ar y llwyfan - 'roedd safon eu gwaith yn uchel iawn. Rydym fel pwyllgor yn ddiolchgar iawn i Mr Dorian Pugh (Pennaeth) a'r holl staff am eu parodrwydd i gydweithio a'u cefnogaeth eleni eto.

Beirniaid yr ardan gyfyngedig oedd y ddwy chwaer o Fwlchllan sef Meirian Morgan (Cerdd) a Meleri Morgan (Llên a Llefaru). Diolch iddynt am eu gwaith.

Dyma ganlyniadau yr adran gyfyngedig:

Canu Meithrin a Derbyn: 1. Arthur Siôn Evans 2. Nel James 3. Gwion Jac

Adrodd Meithrin a Derbyn: 1. Nel James 2. Ifan Lawlor 3. Gwion Jac

Canu Bl. 1 a 2: 1. Annabelle Bulman 2. Ila Ha 3. Owen Jones

Adrodd Bl. 1 a 2: 1. Annabelle Bulman 2. Nansi Alys 3. Tomos Pugh

Canu Bl. 3 a 4: 1. Lois Davies 2. Mali Jones 3. Ela Pugh

Adrodd Bl. 3 a 4: 1. Anni Grug 2. Twm James 3. Lois Davies

Barddoniaeth Bl. 3 a 4 – 'Bro / Adref / Ardal': 1. Twm James 2. Steffan Evans 3. Mabli Jên

Canu Bl. 5 a 6: 1. Ifan Williams 2. Mari Williams 3. Malen Jenkins a Lleucu Jones

Adrodd Bl. 5 a 6: 1. Ifan Williams 2. Mari Williams 3. Gwion Pugh a Elis Hockenhull

Ysgrif bl. 5 a 6 : Portread 'Myfi fy Hun': 1. Macsen Evans 2. Tom Biddolf 3. George Lewis ac Ola

Darlun : Chwedlau

Y buddugol yn derbyn cwpan her parhaol (i'w gadw am flwyddyn) yn rhoddedig gan Lynda Thomas, Pencarreg a chwpan arian i'w gadw yn rhoddedig gan Mr John Jones, Ffair Rhos.

1. George Lewis 2. Georgia Richardson 3. Elis Hockenhull

Cwpan Her Parhaol Cyril Evans (i'w gadw am flwyddyn) i'r unawdydd mwyaf addawol : Mali Jones

Cwpan Her Parhaol Mair Lloyd-Davies (i'w gadw am flwyddyn) i'r adroddwr mwyaf addawol : Twm James

Braf oedd cael presenoldeb yr Aelod Cynulliad Elin Jones yn ystod y noson. Llongyfarchiadau mawr i bawb.

Dydd Sadwrn cynhaliwyd yr Eisteddfod Agored yng nghwmni'r beirniaid Sue Hughes, Peniel (Cerdd) a'r Prifardd Aneirin Karadog, Pontyberem (Llefaru/Llên). Yn cyfeilio sesiwn y prynhawn oedd Lona Phillips, Abermagwr a Gareth Wyn, Rhydaman gyda'r hwyr. Llywydd y dydd oedd Mr Dai Alun Jones Waunfawr, Aberystwyth - Tregaron gynt. Braf oedd cael ei gwmni ynghyd â'i wraig. Hoffai'r pwyllgor ddiolch o waleod calon i Mr Jones am ei rodd hael tuag at yr Eisteddfod. Gwerthfawrogir hyn yn fawr iawn.

Am yr ail flwyddyn cynhelir Seremoni Tlws yr Ifanc i rai o dan 21ain oed yn y prynhawn a diolch yn fawr i Mrs Enfys Hatcher Davies, Pennaeth yr adran Gymraeg, Ysgol Henry Richard a phrif swyddogion yr Ysgol am gymryd gofal o'r

seremoni hon. Cafwyd cystadlu o'r safon uchaf gyda 39 ymgais! Cafodd y beirniad, Aneirin Karadog wres ei draed yn beirniadu'r gystadleuaeth! Yn derbyn y Tlws eleni oedd disgybl bl. 11 o Ysgol Bro Teifi sef Brengain Pryderi. Dim on d15 oed yw Brengain ac mae'n amlwg fod yna ddyfodol disglair iawn o'u blaen. Llongyfarchiadau mawr i bawb.

Yna yn yr hwyr cynhaliwyd prif seremoni'r dydd, y Cadeirio, a braf oedd gweld bod teilyngdod. Y bardd buddugol oedd y Prifardd Gwenallt Llwyd Ifan o Dalybont ond sy'n enedigol o Dregaron. Canmolwyd gwaith y bardd gan y beirniad ac 'roedd pawb yn ymfalchïo yn ei lwyddiant. Braf iawn oedd gweld Gwennallt yn cipio'r Gadair, y tro cyntaf iddo wneud yn Nhregaron. Ymlaen felly at yr un fawr nawr yn 2020! Derbyniodd gadair fechan hardd o waith Jeff Jones, Llanafan. Eirwen James oedd yng ngofal y seremoni a chanwyd y corn gwlad gan Efan Williams. Cyrchwyd y bardd buddugol i'r llwyfan gan Dewi Siôn Evans a Catrin Medi Pugh-Jones ac yn cyfarch 'roedd Gwion Pugh, Ianto James, Malen Jenkins a Ifan Williams, Ysgol Henry Richard. Canwyd cân y Cadeirio gan Demelza Fish-Jenkins. Hyfryd oedd croesawi Ben Lake AS Ceredigion, Peter Davies Cadeirydd Cyngor Sir Ceredigion, Arwel Jones Cadeirydd Cyngor Tref Tregaron, Mrs Catherine Hughes, Cynghorydd Sir (Ward Tregaron) a Llywydd y Dydd, Mr Dai Alun Jones i fod yn rhan o'r seremoni.

Cafwyd cystadlu da drwy gydol y dydd a bu cystadlu'r nos yn adloniant pur. Cafwyd amrywiaeth o gystadlu. Dymuna'r pwyllgor ddiolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd tuag at y gwobrau ac i bawb am eu gwaith di-flino i sicrhau llwyddiant i'r eisteddfod. Terfynwyd diwrnod llwyddiannus o gystadlu brwd o'r safon uchaf gan Hen Wlad fy Nhadau.

<u>Canlyniadau Cystadlu Agored Dydd Sadwrn :</u>

Adrodd Cyfnod Sylfaen: 1. Elliw Bulman, Caerdydd

Unawd bl. 3 a 4: 1. Ela Gwen, Tregaron 2.Lois Davies, Tregaron 3.Mali Jones, Tregaron 4.Delun Ebenezer, Cellan

Adordd bl. 3 a 4: 1. Gwennan Owen, Llanllwni 2. Lois Davies, Tregaron 3. Awel,

Unawd unrhyw offeryn cerdd – oed cynradd: 1. Malen Jenkins, Tregaron (Telyn)

Unawd bl. 5 a 6: 1. Beca Ebenezer, Cellan 2. Mari a Ifan Williams, Tregaron 3. Malen Jenkins, Tregaron

Adrodd bl. 5 a 6: 1. Mari Williams, Tregaron 2. Beca Ebenezer, Cellan 3. Ifan Williams, Tregaron

Canu Emyn - Oed Cynradd: 1.Fflur Meredith, Llambed 2.Beca Ebenezer, Cellan 3. Gwennan Lloyd Owen, Llanllwni

Unawd bl. 7 – 9: 1. Alwena Mair Owen, Llanllwni 2. Elin Williams, Tregaron 3. Betrys Llwyd Dafydd, Abermeurig

Adrodd bl. 7 – 9:
1. Ioan Mabbutt, Aberystwyth 2. Betrys Llwyd Dafydd, Abermeurig ac Alwena Mair Owen, Llanllwni

Unawd bl. 10 – 13: 1. Sara Elan, Cwmann 2. Siwan Aur George, Lledrod 3. Zara Evans, Tregaron

Adrodd bl. 10-13: 1. Zara Evans, Tregaron 2. Sara Elan, Cwmann 3. Siwan Aur George, Lledrod

Unawd Cerdd Dant bl 7 – 13:
1. Sara Elan, Cwmann 2. Betrys Llwyd Dafydd, Abermeurig 3. Ioan Mabbutt, Aberystwyth

Unrhyw offeryn cerdd bl.7 -13: 1. Alwena Owen, Llanllwni 2. Sara Elan, Cwmann

Canu Emyn bl 7 – 13:
1. Betrys Llwyd Dafydd, Abermeurig 2. Zara Evans, Tregaron a Sara Elan, Cwmann 3. Alwena Owen, Llanllwni

Darllen darn o'r ysgrythur:
1. Catrin Medi Pugh-Jones, Llanbadarn Fawr 2. Ifan Meredith, Llambed 3. Delyth Morgan-Phillips Llambed

Deuawd dan bl. 13: 1. Alwena a Gwennan 2. Alwena a Betrys 3. Zara a Sara Elan

Canu Emyn dros 60 oed: 1. Hywel Anwyl, Llanbrynmair

Monolog: 1. Sara Elan, Cwmann 2. Catrin Medi Pugh-Jones, Llanbadarn Fawr 3. Zara Evans, Tregaron

Cân bop / allan o Sioe Gerdd: 1. Sara Davies, Llandysul 2. Guto Lewis, Llanon 3. Elgan Evans 4 Rhian Griffiths

Her Adroddiad 18-30 oed: 1. Enfys Hatcher-Davies

Her Unawd 18-30: 1. Rhian Griffiths 2. Sara Davies, Llandysul 3. Guto Lewis, Llanon 4. Elgan Evans

Adrodd Digri Agored: 1. Mair Jones, Tregaron 2. Betrys Llwyd Dafydd, Abermeurig

Canu Emyn 18-60 oed: 1. Elgan Evans 2. Rhian Griffiths 3. Ffion Medi, Tregaron

Côr: 1. Merched Soar

Sgen ti Dalent? 1. Mali Lewis, Llanon 2. Soar Bach a Dewi Siôn

Parti Canu: 1. Soar Bach

Deuawd Agored: 1. Barry Powell a Dewi Siôn

Her Unawd Agored:
1. Aneira Evans, Aberhosan 2. Efan Williams, Lledrod 3. Barry Powell, Llanfihangel y Creuddyn 4. Marianne Jones-Powell

Her Adroddiad Agored: 1. Enfys Hatcher-Davies, Llanddewi Brefi 2. Elan Morgan

Cenwch i'm yr Hen Ganiadau:
1. Barry Powell, Llanfihangel y Creuddyn 2. Efan Williams, Lledrod a Crwys Evans, Pontrhydygroes 3. Dewi Siôn, Tregaron

<u>Dyma ganlyniadau gwaith llenyddol</u>

Y GADAIR : 'Drych' – Y Prifardd Gwenallt Llwyd Ifan, Talybont

Tlws yr Ifanc (o dan 21oed) – Brengain Pryderi, Blaen-cil-llech, ger Ffostrasol

Telyneg 'Ar Groesffordd' : Grug Muse, Carmel

Englyn 'Llafn' : Rachel James, Boncath

Stori Fer 'Cwlwm' : Iona Evans, Pandy Tudur

Llythyr o gwyn at aelod seneddol (Cynulliad neu San Steffan) Trefor Huw Jones, Llanfarian

Sgets addas ar gyfer Eisteddfod y Ffermwyr Ifanc : Iwan Thomas, Ciliau Aeron

Limrig : 'Y mae rhai sydd y well na'i gilydd' : Iwan Thomas, Ciliau Aeron

Brawddeg Y-M-W-E-L-I-A-D : Susan Rees, Lledrod

I ddisgyblion oed Uwchradd 'Noson Mas' : Hanna Parry, Ysgol Bro Teifi

Dysgwyr 'Agor Drws' : Simon Jones, Y Fenni